



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2021 Rhif 335 (Cy. 90)**

**2021 No. 335 (W. 90)**

**Y GYFRAITH  
GYFANSODDIADOL**

**CONSTITUTIONAL LAW**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL,  
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE  
PEOPLE, WALES**

Gorchymyn Senedd Cymru  
(Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio)  
2021

The Senedd Cymru (Representation  
of the People) (Amendment) Order  
2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 ("Gorchymyn 2007").

Gwnaed Gorchymyn 2007 gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ond trosglwyddwyd y pwerau galluogi i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Cymru 2017. Gwnaeth Gweinidogion Cymru eu Gorchymyn cyntaf mewn perthynas â chynnal etholiadau Senedd Cymru yn 2020, sef Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020 ("Gorchymyn 2020").

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 i newid yr amser ar gyfer danfon papurau enwebu i 4 p.m. ar y 19eg diwrnod cyn diwrnod yr etholiad.

Mae erthyglau 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraffau 4, 6 a 7 o Atodlen 5 i Orchymyn 2007 a Rhan 2 o ffurflen CZ (Ffurflen cyfeiriad cartref) yn Atodlen 10 iddo. Mae'r diwygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd, nad yw am i'w gyfeiriad cartref gael ei wneud yn gyhoeddus, ddarparu naill ai ei etholaeth Senedd Cymru, neu os yw'n preswyllo y tu allan i Gymru, ei etholaeth Senedd y DU lle y mae ei gartref. Mae Ffurflen CZ wedi ei diwygio i adlewyrchu'r newid hwn hefyd.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007 ("the 2007 Order").

The 2007 Order was made by the Secretary of State, but the enabling powers were transferred to the Welsh Ministers by the Wales Act 2017. The Welsh Ministers made their first Order in relation to the conduct of Senedd Cymru elections in 2020, namely the Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2020 ("the 2020 Order").

Article 3 of this Order amends the 2007 Order to change the time for delivery of nomination papers to 4 p.m. on the 19<sup>th</sup> day before the day of the election.

Articles 4, 5 and 6 of this Order amend paragraphs 4, 6 and 7 of Schedule 5, and Part 2 of form CZ (Home address form) in Schedule 10, to the 2007 Order. The amendments require a candidate, who does not want their home address made public, to provide either their Senedd Cymru constituency, or if they reside outside Wales, their UK Parliamentary constituency where their home address is located. Form CZ is amended to reflect this change also.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseidiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

**2021 Rhif 335 (Cy. 90)**

**2021 No. 335 (W. 90)**

**Y GYFRAITH  
GYFANSODDIADOL**

**CONSTITUTIONAL LAW**

**CYNRYCHOLAETH Y BOBL,  
CYMRU**

**REPRESENTATION OF THE  
PEOPLE, WALES**

**Gorchymyn Senedd Cymru  
(Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio)  
2021**

**The Senedd Cymru (Representation  
of the People) (Amendment) Order  
2021**

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

*Approved by Senedd Cymru*

*Gwnaed am 4.13 p.m. ar 17 Mawrth 2021*

*Made at 4.13p.m. on 17 March 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 5.55 p.m. ar 17 Mawrth 2021*

*Laid before Senedd  
Cymru at 5.55 p.m. on 17 March 2021*

*Yn dod i rym 18 Mawrth 2021*

*Coming into force 18 March 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 13(1) a (2) a 157(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1) fel y'i hestynnir gan adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(2).

The Welsh Ministers make this Order in exercise of the powers conferred on them by sections 13(1) and (2) and 157(2)(c) of the Government of Wales Act 2006(1) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(2).

Yn unol ag adran 12(3) o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021(3), gosodwyd yr offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad o fewn 28 o ddiwrnodau iddo gael ei wneud.

In accordance with section 12(3) of the Welsh Elections (Coronavirus) Act 2021(3), this instrument has been laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru within 28 days of it being made.

Yn unol ag adran 7(1) a (2)(f) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(4), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn iddo gael ei wneud.

In accordance with section 7(1) and (2)(f) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(4), the Welsh Ministers have consulted with the Electoral Commission prior to it being made.

(1) 2006 p. 32. Amnewidiwyd adran 13 gan adran 5(1) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4) ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(2) 1993 p. 38.

(3) 2021 dsc. 2.

(4) 2000 p. 41; amnewidiwyd is-adran (2)(f) gan O.S. 2007/1388.

(1) 2006 c. 32. Section 13 was substituted by section 5(1) of the Wales Act 2017 (c. 4) and subsequently amended by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(2) 1993 c. 38.

(3) 2021 asc 2.

(4) 2000 c. 41; subsection (2)(f) was substituted by S.I. 2007/1388.

## RHAN 1

### Cyffredinol

#### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym drannoeth y diwrnod y'i gwneir..

(3) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond i etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd sy'n digwydd yn 2021.

(4) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “etholiad 2021” (“*the 2021 election*”) yw etholiad cyffredinol arferol i fod yn Aelod o'r Senedd y bwriedir i'r pŵl ar ei gyfer gael ei gynnal yn 2021;

ystyr “Gorchymyn 2007” (“*the 2007 Order*”) yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(1).

#### Diwygio Gorchymyn 2007

2. Mae Gorchymyn 2007 wedi ei ddiwygio yn unol â Rhannau 2 a 3.

## RHAN 2

### Danfon papurau enwebu

3. Yn rheol 1(1) (amserlen ar gyfer cynnal trafodion mewn etholiad i'r Senedd) o Atodlen 5, yng nghlofn y tabl â'r pennawd “Time”, yn y cofnod sy'n cyfateb i'r cofnod “Delivery of nomination papers.”, ym mrawddeg gyntaf y golofn honno, ar ôl “notice of election but not later than” mewnosoder “4 in the afternoon on”.

## RHAN 3

### Ffurflen cyfeiriad cartref

4. Yn erthygl 2(1) (dehongli), yn y lle priodol, mewnosoder—

## PART 1

### General

#### Title, commencement, interpretation and application

1.—(1) The title of this Order is the Senedd Cymru (Representation of the People) (Amendment) Order 2021.

(2) This Order comes into force the day after the day on which it is made.

(3) This Order only applies to an ordinary general election for membership of Senedd Cymru which takes place in 2021.

(4) In this Order—

“the 2007 Order” (“*Gorchymyn 2007*”) means the National Assembly for Wales (Representation of the People) Order 2007(1);

“the 2021 election” (“*etholiad 2021*”) means an ordinary general election for membership of Senedd Cymru the poll of which is due to be held in 2021.

#### Amendment of the 2007 Order

2. The 2007 Order is amended in accordance with Parts 2 and 3.

## PART 2

### Delivery of nomination papers

3. In rule 1(1) (timetable for conduct of proceedings at a Senedd election) of Schedule 5, in the column of the table headed “Time”, in the entry corresponding to the entry “Delivery of nomination papers.”, in the first sentence of that column, after “notice of election but not later than” insert “4 in the afternoon on”.

## PART 3

### Home address form

4. In article 2(1) (interpretation), in the appropriate place insert—

(1) O.S. 2007/236. Diwygiwyd y Gorchymyn hwn gan O.S. 2009/1182; O.S. 2010/1142 (Cy. 101); O.S. 2010/2931; O.S. 2011/1441; O.S. 2011/2085; O.S. 2012/1479; O.S. 2013/388; O.S. 2013/591; O.S. 2015/664; O.S. 2016/272; O.S. 2016/292; O.S. 2020/1558 (Cy. 329); adran 3 o Ddeddf Cymru 2014 (p. 29), adran 27 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1) ac adran 12 o Ddeddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021 (dsc 2).

(1) S.I. 2007/236. This Order has been amended by S.I. 2009/1182; S.I. 2010/1142 (W. 101); S.I. 2010/2931; S.I. 2011/1441; S.I. 2011/2085; S.I. 2012/1479; S.I. 2013/388; S.I. 2013/591; S.I. 2015/664; S.I. 2016/272; S.I. 2016/292; S.I. 2020/1558 (W. 329); section 3 of the Wales Act 2014 (c. 29), section 27 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1) and section 12 of the Welsh Elections (Coronavirus) Act 2021 (asc 2).

““UK Parliamentary constituency” means a constituency specified in an Order in Council made under section 4 of the Parliamentary Constituencies Act 1986(1).”

5.—(1) Mae Atodlen 5 (Rheolau Etholiadau'r Senedd) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheol 4(4B)(b)(i), ar ôl “state the” mewnosoder “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

(3) Yn rheol 6(4B)(b)(i), ar ôl “state the” mewnosoder “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

(4) Yn rheol 7(6B)(b)(i), ar ôl “state the” mewnosoder “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

6. Yn Atodlen 10 (Atodiad ffurflenni), yn Rhan 2 o ffurflen CZ, ar ôl “etholaeth Senedd Cymru” mewnosoder “neu, os yw'r ymgeisydd yn preswyllo y tu allan i Gymru, etholaeth Senedd y DU”.

““UK Parliamentary constituency” means a constituency specified in an Order in Council made under section 4 of the Parliamentary Constituencies Act 1986(1).”

5.—(1) Schedule 5 (Senedd Election Rules) is amended as follows.

(2) In rule 4(4B)(b)(i), after “state the” insert “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

(3) In rule 6(4B)(b)(i), after “state the” insert “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

(4) In rule 7(6B)(b)(i), after “state the” insert “Senedd Cymru or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

6. In Schedule 10 (Appendix of forms), in Part 2 of form CZ, after “name of Senedd Cymru” insert “or, if the candidate resides outside Wales, UK Parliamentary”.

*Mark Drakeford*

Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru  
Am 4.13 p.m. ar 17 Mawrth 2021

©© Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

First Minister of Wales, one of the Welsh Ministers  
At 4.13 p.m. on 17 March 2021

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) 1986 p. 56.

---

(1) 1986 c. 56.





£4.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/335>

ISBN 978-0-348-11950-3



9 780348 119503